# Adroddiadau’r Hwb 2022/2023- Data Amrywiaeth a Chynhwysiant

## Data trawsryweddol/anneuaidd

Yn ystod y flwyddyn academaidd hon, bydd y data cyntaf yn cael ei gasglu ar gyfranogwyr trawsryweddol ac anneuaidd. Bydd hyn yn helpu Undeb Rygbi Cymru i ddeall nifer y plant a phobl ifanc sy'n chwarae rygbi sy'n uniaethu â rhywedd sy'n wahanol i'w rhyw a bennwyd adeg eu geni.

Mae'n bwysig nad yw Swyddogion yr Hwb yn gofyn yn uniongyrchol i blant na phobl ifanc am eu hunaniaeth o ran rhywedd, gan y bydd staff addysgu a chymorth yn gallu darparu gwybodaeth ynghylch hunaniaeth o ran rhywedd y cyfranogwyr. Efallai nad yw rhai plant a phobl ifanc yn gwybod neu'n cwestiynu eu hunaniaeth o ran rhywedd ac mewn rhai achosion gall hyn wneud iddynt deimlo'n anghyfforddus neu deimlo eu bod yn cael eu neilltuo. Wrth gasglu'r wybodaeth hon mae'n ddefnyddiol cael hyn fel rhif (e.e. 3 phlentyn allan o ddosbarth o 30, wedi ei ysgrifennu fel 3/30) neu fel canran (e.e. 10%). Dylid casglu'r wybodaeth yma bob hanner tymor/bob tymor/yn flynyddol.

Amcangyfrifir bod 1% o’r boblogaeth yn bobl draws ac anneuaidd, ond gallai hyn fod yn fwy ymhlith pobl ifanc, yn enwedig mewn Addysg Uwch neu Addysg Bellach.

I wneud cyfranogwyr trawsryweddol ac anneuaidd deimlo’n fwy cyfforddus, defnyddiwch ragenwau cywir a chyflwyno eich un chi ar ddechrau'r sesiwn os ydych chi'n teimlo'n gyfforddus i wneud hynny. Er enghraifft, gall Swyddog Hwb uniaethu fel gwryw a'i ragenwau fyddai ef/ei. Ceisiwch gofio a yw person ifanc wedi gofyn i chi ddefnyddio rhagenwau penodol fel y

**Diffiniad traws neu drawsryweddol**
Term ymbarél i ddisgrifio pobl nad yw eu rhywedd yr un fath â’r rhyw a bennwyd adeg eu geni, neu nad ydynt yn gyfforddus â’r rhyw a bennwyd ar adeg eu geni.
Gall pobl draws ddisgrifio eu hunain drwy ddefnyddio un neu fwy o amrywiaeth eang o dermau, gan gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) trawsryweddol, rhywedd-cwiar (GQ), rhyweddhylifol, anneuaidd, rhywedd amrywiol, ymhlith termau eraill.
**Diffiniad dyn/bachgen trawsryweddol**
Term a ddefnyddir i ddisgrifio rhywun a gafodd ei phennu’r fenyw adeg ei geni ond sy'n arddel hunaniaeth dyn ac yn byw fel dyn. Gall hyn gael ei fyrhau i ddyn traws, neu FtM (menyw i ddyn).
**Diffiniad menyw/merch drawsryweddol**
Term a ddefnyddir i ddisgrifio rhywun a gafodd ei bennu’n ddyn ar adeg ei eni ond sy'n arddel hunaniaeth fenyw ac yn byw fel menyw. Gall hyn gael ei fyrhau i fenyw draws, neu MtF, (dyn i fenyw).

**Diffiniad trawsnewid**
Y camau y gall person traws eu cymryd i fyw yn y rhywedd y mae'n uniaethu ag ef. I rai mae hyn yn cynnwys ymyrraeth feddygol, fel therapi hormonau a llawdriniaethau, ond nid yw pob person traws eisiau neu'n gallu cael hyn. Gallai trawsnewid hefyd gynnwys pethau fel dweud wrth ffrindiau a theulu, gwisgo'n wahanol a newid dogfennau swyddogol.
**Diffiniad anneuaidd**
Term ymbarél ar gyfer pobl nad ydynt yn gyfforddus yn arddel hunaniaeth 'dyn' neu 'fenyw'. Mae hunaniaethau anneuaidd yn amrywiol ac yn gallu cynnwys pobl sy'n uniaethu â rhai agweddau ar hunaniaethau deuaidd, tra bod eraill yn eu gwrthod yn llwyr.

**Darllen Defnyddiol**
Ceir rhagor o wybodaeth am gymunedau trawsryweddol ac anneuaidd a chyfranogiad chwaraeon yma:
Deallusrwydd Rhyweddol
Mermaids
Stonewall

## Data cymuned ethnig amrywiol
Mae URC yn awyddus i ddeall cyfranogiad cymunedau ethnig amrywiol mewn rygbi. Yn 2022/23 byddwn yn cofnodi cyfranogiad gan y cymunedau hyn, wedi'u grwpio gyda'i gilydd fel Cymunedau Ethnig Amrywiol. Mae hyn yn disodli'r term blaenorol BAME (Cymunedau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig).

Mae'n bwysig nad yw Swyddogion Hwb yn gofyn i blant na phobl ifanc am eu hil na'u hethnigrwydd yn uniongyrchol, gan y bydd staff addysgu a chymorth yn gallu darparu gwybodaeth am gefndir cymunedol cyfranogwyr. Wrth gasglu'r wybodaeth hon mae'n ddefnyddiol cael hyn fel rhif (e.e. 10 plentyn allan o ddosbarth o 30, wedi ei ysgrifennu fel 10/30) neu fel canran (e.e. 30%). Nid oes angen dadansoddiad fesul ethnigrwydd. Dylid casglu'r wybodaeth yma bob hanner tymor/bob tymor/yn flynyddol.

Yn 2019, roedd tua 5% o boblogaeth Cymru yn uniaethu â chymunedau ethnig amrywiol, ac mae'r nifer wedi bod yn cynyddu'n araf dros nifer o ddegawdau. Yr wybodaeth gywir nesaf i'w chyhoeddi bydd gwybodaeth Cyfrifiad 2021.

**Categorïau Cyffredin Cymunedau Ethnig Amrywiol**
Mae llawer o gymunedau gwahanol sy'n ffurfio'r grŵp ehangach o gymunedau ethnig amrywiol yng Nghymru. Isod ceir rhestr o gymunedau cyffredin y gallwch ddod ar eu traws, er nad yw hon yn rhestr gynhwysfawr.

- Gwyn Ewropeaidd (e.e. Wcrainaidd, Pwylaidd)
- Gwyn Sipsiwn neu Deithwyr Gwyddelig
- Roma
- Du Prydeinig
- Du Affricanaidd

- Du Caribïaidd
- Cefndir Du Arall
- Asiaidd - Tsieiniaidd
- Asiaidd - Indiaidd
- Asiaidd - Pacistanaidd
- Asiaidd - Bangladeshaidd
- Asiaidd - Prydeinig
- Cefndir Asiaidd arall
- Arabaidd
- Cefndir Cymunedol Cymysg- Gwyn a Du Caribïaidd
- Cefndir Cymunedol Cymysg- Gwyn a Du Affricanaidd
- Cefndir Cymunedol Cymysg- Gwyn ac Asiaidd
- Cefndir Cymunedol Cymysg Arall

**Darllen Defnyddiol**
Ceir rhagor o wybodaeth am gymunedau ethnig amrywiol a chyfranogiad chwaraeon yma:
Sporting Equals
Chwaraeon Cymru
Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth

## Prydau Ysgol am Ddim

Mae URC yn casglu data ar nifer y cyfranogwyr sy'n gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim am y tro cyntaf yn 2022/23. Mae Prydau Ysgol am Ddim yn cael eu darparu i blant o aelwydydd sydd â'r incwm isaf. Mae hyn yn cynnwys teuluoedd sy'n cael Credyd Cynhwysol, Cymhorthdal Incwm, Lwfans Ceisio Gwaith a Lwfans Cymorth Cyflogaeth.

Mae'n bwysig nad yw Swyddogion Yr Hwb yn gofyn yn uniongyrchol i blant na phobl ifanc am eu statws Prydau Ysgol Am Ddim, gan y bydd staff addysgu a chymorth yn gallu darparu gwybodaeth ynghylch statws Prydau Ysgol Am Ddim y cyfranogwyr. Gall plant fod yn anghyfforddus gyda'r ffaith bod pobl eraill yn gwybod eu statws Prydau Ysgol Am Ddim a gallant deimlo eu bod yn cael eu neilltuo, ac mewn rhai achosion efallai na fydd plant yn gwybod eu bod yn cael Prydau Ysgol am Ddim neu'n gymwys i'w cael. Wrth gasglu'r wybodaeth hon mae'n ddefnyddiol cael hyn fel rhif (e.e. 10 plentyn allan o ddosbarth o 30, wedi ei ysgrifennu fel 10/30) neu fel canran (e.e. 30%). Dylid casglu'r wybodaeth yma bob hanner tymor/bob tymor/yn flynyddol.

Mae mwy na 100,000 o blant yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim yng Nghymru, o tua 468,000 o blant a phobl ifanc o oedran ysgol (22.4% ar ddiwedd 2021), yr effeithiwyd arnynt yn sylweddol gan bandemig COVID-19 a chostau byw.

Weithiau cysylltir Prydau Ysgol am Ddim â chanlyniadau cyrhaeddiad addysgol, gan fod llawer wedi'i ysgrifennu mewn ymchwil academaidd am gyrhaeddiad addysgol is ymhlith plant a phobl ifanc sy'n cael Prydau Ysgol am Ddim, fodd bynnag, gall hyn greu stigma neu

stereoteip ymhlith y rhai sy'n cael y prydau ac mae llawer o eithriadau i'r damcaniaethau hyn.

**Darllen Defnyddiol**
Ceir rhagor o wybodaeth am gymunedau economaidd-gymdeithasol a chyfranogiad chwaraeon isel yma:
Chwaraeon Cymru
Llywodraeth Cymru

## Data ADY

Mae URC yn casglu data ar nifer y cyfranogwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY- y cyfeirid atynt yn flaenorol fel AAA neu Anghenion Addysgol Arbennig) am y tro cyntaf yn 2022/23. Term sy'n cael ei ddefnyddio i nodi plant a phobl ifanc sy'n elwa ar gymorth ychwanegol yn eu haddysg yw ADY. Gallai hyn olygu eu bod yn canfod rhai agweddau ar ddysgu'n anoddach na phlant o'r un oedran ac efallai bod ganddynt anabledd sy'n gofyn am addasu’r ffordd y caiff eu haddysg ei darparu.

Mae'n bwysig nad yw Swyddogion Yr Hwb yn gofyn i blant na phobl ifanc yn uniongyrchol am eu statws ADY, gan y bydd staff addysgu a chymorth yn gallu darparu gwybodaeth ynghylch statws cyfranogwyr ADY. Efallai bod plant yn anghyfforddus gyda’r ffaith bod pobl eraill yn gwybod eu statws ADY ac efallai eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu neilltuo, ac mewn rhai achosion efallai na fydd plant yn ymwybodol o'u ADY. Wrth gasglu'r wybodaeth hon mae'n ddefnyddiol cael hyn fel rhif (e.e. 10 plentyn allan o ddosbarth o 30, wedi ei ysgrifennu fel 10/30) neu fel canran (e.e. 30%). Dylid casglu'r wybodaeth yma bob hanner tymor/bob tymor/yn flynyddol.

Byddwch yn gallu dod o hyd i nifer y myfyrwyr ADY yn eich sefydliad drwy wefan yr ysgol ac mae'n bwysig ystyried sut y caiff eich sesiynau ymarferol ac ystafell ddosbarth eu cynnal, er mwyn sicrhau bod myfyrwyr ADY yn cael eu cynnwys. Os nad ydych yn sicr ynghylch statws ADY plentyn neu berson ifanc, neu pa addasiadau y gall fod angen i chi eu gwneud i’ch cyflwyniad, siaradwch â’r arweinydd neu'r swyddfa yn eich sefydliad.

**Darllen Defnyddiol**
Ceir rhagor o wybodaeth am ADY yma:
Llywodraeth Cymru
Snap Cymru